



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar
gyfer Datblygu Gwledig:
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for
Rural Development:
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

ADRAN 4 - Y GRANT BUSNES I FFERMYDD – RHEOLAU'R CYNLLUN GORCHUDDIO IARDIAU

Gwybodaeth Pwysig: Storio tail a silwair. O 1 Ebrill 2021, nae'n rhaid rhoi 14 diwrnod o rybudd i Cyfoeth Naturiol Cymru cyn y gall gwaith adeiladu gychwyn ar storfa newydd neu well ar gyfer slyri neu silwair (bydd y newid hwn mewn grym o 28 Ebrill 2021). Ac eithrio'r gofyniad i hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru cyn y gall gwaith adeiladu ar storfa gychwyn, ni fydd y gofynion ar gyfer storio silwair yn wahanol i'r hyn a nodir yn y rheoliadau SSAFO.

I fod yn gymwys ar gyfer y Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau:

- Rhaid ichi fod wedi cofrestru gyda Llywodraeth Cymru ac wedi derbyn Cyfeirnod Cwsmer. Mae'r [canllawiau ar sut i gofrestru](#) ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru neu drwy ffonio'r Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid ar 0300 062 5004.
- Rhaid ichi:
- Fod yn gynhyrchydd cynradd cynhyrchion amaethyddol
 - bod â thri hectar o dir amaethyddol cymwys yng Nghymru wedi'i gofrestru gydag RPW **neu**
 - allu dangos dros 550 awr safonol o lafur

Byddwn yn gwirio a oes gennych hawliad Cynllun y Taliad Sylfaenol neu hawliad Glastir Organig cymwys er mwyn gwirio:

1. Eich bod yn gynhyrchydd cynradd cynhyrchion amaethyddol
2. Bod gennych dri hectar o dir amaethyddol cymwys yng Nghymru.

Os nad ydych wedi cyflwyno hawliadau am y naill gynllun neu'r llall, neu os na allwn ddilysu'r tir, rhaid ichi gyflwyno tystiolaeth ddogfennol gyda'ch **datganiad o ddiddordeb** i gadarnhau eich bod yn gynhyrchydd cynradd cynhyrchion amaethyddol a'ch bod yn bodloni naill ai'r meini prawf cymhwysedd tair hectar neu 550 o oriau safonol o lafur

- Bod â throsiant busnes o £1 miliwn neu lai (**er mwyn derbyn taliad y Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau mae'n rhaid ichi gyflwyno llythyr gan eich cyfrifydd yn cadarnhau eich trosiant busnes ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiweddaraf y mae cyfrifon ar gael ar ei chyfer pan fyddwch yn cyflwyno eich cais**).

YMRWYMIADAU O DAN Y CYNLLUN

- Rhaid ichi gwblhau'r hawliad a chyflwyno ffotograffau â geotag a dogfennau ategol y mae'n rhaid iddynt gynnwys llythyr cyfrifydd i gadarnhau trosiant y busnes erbyn y dyddiad cau a nodir yn y Contract.
- Rhaid ichi fodloni'r gofynion a nodir yn y Contract.
- Mae'n rhaid ichi gyflwyno eich hawliadau drwy eich cyfrif RPW Ar-lein erbyn y dyddiad a nodi'r yn eich llythyr i gynnig contract gyda'r holl dystiolaeth atodol i fod yn gymwys i gael eich ystyried am daliad.
- Rhaid ichi fodloni unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol a osodir o dan gyfraith yr UE a'r DU, gan gynnwys deddfwriaeth iechyd a lles anifeiliaid neu blanhigion.
- Ni ddylech waredu, trosglwyddo na gwerthu offer a brynwyd â chymorth grant yn ystod y prosiect, nac am bum mlynedd i ddyddiad y gymeradwyaeth, heb ganiatâd ysgrifenedig Llywodraeth Cymru ymlaen llaw. Os rhoddir caniatâd ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru, rhaid ad-dalu'r grant a ddyfarnwyd yn llawn.
- Ni ddylech waredu, trosglwyddo na gwerthu unrhyw offer a brynir â chymorth grant heb ganiatâd ysgrifenedig Llywodraeth Cymru ymlaen llaw, yn ystod y broses o gyflawni'r prosiect nac am bum mlynedd i ddyddiad y gymeradwyaeth.
- Rhaid ichi gydymffurfio â'r rheolau ar wariant cymwys.
- Mae'n rhaid ichi fod wedi prynu'r holl eitemau o offer a ddewiswyd yn eich cais, ac mae'n rhaid i'r rheini fod wedi eu prynu ar ôl y dyddiad cymeradwyo.
- Rhaid i'r holl eitemau hyn fod ar eich daliad ar yr adeg y byddwch yn cyflwyno eich cais.
- Rhaid i'r holl eitemau hyn fod ar eich daliad ar adeg archwiliad.
- Rhaid ichi gadarnhau nad oes yr un o'r eitemau wedi eu cynnwys yn y cais yn rhai newydd o dan hawliad yswiriant.
- Rhaid i eitemau fodloni'r meini prawf gofynnol a ddisgrifir yn y Rhestr o Eitemau Cyfalaf Cymwys.
- Mae cytundebau cyllid yn dderbyniol o dan y Grant Busnes i Ffermydd, ar yr amod bod gennych anfoneb ar arni gyfeiriad eich busnes masnachu ar gyfer yr eitemau (ac nid y cwmni cyllid).
- Nid yw offer ail-law yn gymwys ar gyfer y grant.
- Ni chewch newid prosiect, gan gynnwys lleoliad y gweithgarwch, heb gymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru.

- Rhaid ichi gadarnhau na ofynnwyd am unrhyw arian cyhoeddus arall (boed o ffynonellau'r UE neu'r DU).
- Rhaid ichi ymrwymo i fodloni, yn ôl yr angen, unrhyw rwymedigaethau mewn perthynas â sicrhau caniatâd cynllunio.
- Storio tail a silwair. O 1 Ebrill 2021, nae'n rhaid rhoi 14 diwrnod o rybudd i Cyfoeth Naturiol Cymru cyn y gall gwaith adeiladu gychwyn ar storfa newydd neu well ar gyfer slyri neu silwair (bydd y newid hwn mewn grym o 28 Ebrill 2021). Ac eithrio'r gofyniad i hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru cyn y gall gwaith adeiladu ar storfa gychwyn, ni fydd y gofynion ar gyfer storio silwair yn wahanol i'r hyn a nodir yn y rheoliadau SSAFO.
- Os ceir arian cyhoeddus arall gan yr UE neu'r DU i gefnogi costau prosiect, cânt ei ddidynnu o'r Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau.
- Rhaid cadw cofnodion o'r cais a'r hawliad am y grant hwn, gan gynnwys yr holl anfonebau gwreiddiol ac unrhyw ddogfennau cysylltiedig eraill, am o leiaf saith mlynedd ar ôl dyddiad y gymeradwyaeth.
- Rhaid ichi ganiatáu i gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru, y Comisiwn Archwilio a Llys Archwilwyr Ewrop arolygu'r prosiect. Ar gais, rhaid ichi roi gwybodaeth iddynt a / neu fynediad at ddogfennau gwreiddiol mewn perthynas â'r prosiect.
Rhaid i unrhyw gyhoeddusrwydd a roddir i'r prosiect gyfeirio at y rhan a chwaraewyd gan yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru wrth ei ariannu.

Dylech fod yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Ewropeaidd yn cadw'r hawl i gyhoeddi enw eich busnes neu gwmni, faint o grant a ddyfarnwyd ichi a chrynodeb o'ch prosiect.

TELERAU AC AMODAU Y GRANT BUSNES I FFERMYDD – GORCHUDDIO IARDIAU:

1. DIFFINIADAU

Mae'r diffiniadau canlynol yn berthnasol yn y contract hwn:

Mae “**cynhyrchydd cynhyrchion amaethyddol cynradd**” yn unigolyn, partneriaeth neu gwmni sy'n gweithredu busnes sy'n cynhyrchu cynhyrchion amaethyddol Atodiad 1. Mae hyn yn cynnwys y sectorau ffermio canlynol:

- cnydau âr
- cig eidion
- cynnyrch llaeth
- geifr
- garddwriaeth (gan gynnwys hydroponeg ac acwaponeg)
- moch
- dofednod
- defaid
- gwenyna

“**Cyfanswm trosiant busnes**” yw'r holl incwm sy'n mynd drwy un cyfrif busnes; gall hyn gynnwys incwm amaethyddol a'r holl incwm a ddaw o arallgyfeirio mewn meysydd anamaethyddol. Ni ddylech gyfuno incwm busnesau gwahanol at y diben hwn.

“**Buddiolwr**” a “**Buddiolwyr**” yw gweithredwr, corff neu gwmni, boed yn gyhoeddus neu'n breifat, sy'n gyfrifol am ddechrau, neu ddechrau a rhoi gweithrediadau ar waith, neu sy'n derbyn cymorth o dan y Contract.

“**Tir amaethyddol cofrestredig cymwys**” yw tir amaethyddol sydd yng Nghymru; Tir comin lle mae gan y Buddiolwr yr holl hawliau pori ac sydd wedi cael ei gofrestru fel “tir comin ag un porwr” o fewn System Adnabod Parseli Tir Llywodraeth Cymru (LPIS).

“**Oriau llafur safonol**” yw'r oriau gwirioneddol a weithir mewn busnes ffermio, gan gynnwys oriau rheolaidd gan weithwyr llawn amser a rhan amser, a'r rheini sy'n gweithio rhan o'r flwyddyn.

“**Gwerth y Grant**” yw taliad a wneir i dalu neu ad-dalu am eitemau y cytunwyd arnynt sydd wedi eu cynnwys yn y Rhestr o Eitemau Cyfalaf Cymwys a ddiffiniwyd ymlaen llaw. Amlinellir y rhain yn Atodiad A i'r Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau.

“Eitem” yw darn o offer neu beiriant cyfalaf wedi'i gynnwys yn y Rhestr o Eitemau Cyfalaf Cymwys a ddiffiniwyd ymlaen llaw. Amlinellir y rhain yn Atodiad A i'r Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau.

“Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014–2020” yw'r system a ddefnyddir gan Weinidogion Cymru i gyflawni gweithgareddau o dan y Rheoliadau sy'n cefnogi'r cefn gwlad a chymunedau gwledig, gan annog rheoli amaethyddiaeth a'r amgylchedd yn gynaliadwy.

2. Hawliadau a Thaliadau

2.1 Gwneud Taliadau'r Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau

2.1.1 Ar bob adeg dylai Gweinidogion Cymru wneud Taliadau'r Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau yn unol â'r amodau canlynol:

- i) Bod y buddiolwr wedi cwblhau a chyflwyno hawliad am y Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau, gan ddefnyddio'r dudalen Hawliad am Waith Cyfalaf drwy ei gyfrif RPW ar-lein, er mwyn iddo barhau i fod yn gymwys am daliad ac i dderbyn taliad.
- ii) Mai'r Buddiolwr fydd yn gyfrifol am sicrhau ei fod yn cwblhau ac yn cyflwyno ei hawliad am y Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau, ynghyd â derbynebau, anfonebau a ffotograffau â geotag o'r gwaith wedi'i gwblhau ar gyfer pob eitem yr hawliwyd amdani, yn ogystal â llythyr gan gyfrifydd yn cadarnhau bod trosiant y busnes yn £1 miliwn neu'n llai, erbyn y dyddiad a nodir yn Rheolau'r Cynllun.
- iii) Nad yw'r Buddiolwr wedi derbyn taliad o unrhyw ffynhonnell arall mewn perthynas ag unrhyw daliad sy'n ddyledus neu daliad sy'n gysylltiedig â'r Contract.
- iv) Nad yw'r Buddiolwr wedi creu'n artiffisial yr amodau sydd eu hangen i gael taliadau.
- v) Nad yw'r Buddiolwr wedi gwneud gosodiad neu ddatganiad ffug neu gamarweiniol, nac wedi rhoi gwybodaeth ffug neu gamarweiniol i Weinidogion Cymru.
- vi) Bod taliadau'r Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau yn cael eu cyfrifo'n unol ag Atodlen y Contract, a bod yr holl eitemau ar y rhestr wedi cael eu prynu yn unol â'r manylebau cywir. Gwneir taliadau ar ôl i'r hawliad gael ei ddilysu yn llwyddiannus, yn dilyn gwiriadau gweinyddol.

- vii) Y gall hawliad y Buddiolwr gael ei ddewis i gael ei archwilio cyn neu ar ôl i'r taliad gael ei wneud. Bydd holl fanylion yn nghais y Buddiolwr, manylion yn yr hawliad a'r datganiadau a wnaed wrth gyflwyno'r cais a'r hawliad i gyd yn cael eu harchwilio. Bydd hyn yn cynnwys gwirio trosiant y busnes, y dyddiadau y prynwyd yr offer, at bwy roedd yr anfoneb (neu anfonebau) wedi'i chyfeirio a manylebau'r offer (lle bo hynny'n briodol), a gwirio bod yr holl eitemau ar y daliad ar adeg yr archwiliad.
- viii) Telir taliadau'r Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau yn Sterling yn unig gan Weinidogion Cymru drwy'r system BACS.

2.2 Cymorth Gwladwriaethol

2.2.1 Nid yw Erthyglau 107, 108 nac 109 y TFEU (Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd) yn berthnasol i grantiau a roddir o dan y cynllun hwn os cawsant eu gwneud yn unol â Rheoliad (UE) Rhif 1305/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor (Rheoliadau Datblygu Gwledig), ac o fewn cwrdd Erthygl 42 y TFEU.

Mae Erthygl 42 y TFEU yn berthnasol i weithgareddau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu cynhyrchion amaethyddol cynradd.

2.2.2 Bydd grantiau a ddarperir o dan y cynllun hwn yn cydymffurfio â'r cyfraddau ymyrraeth uchaf a'r terfynau cymorth a nodir yn Atodiad II i'r Rheoliadau Datblygu Gwledig.

2.3 Hawliadau anghywir a chosbau

2.3.1 Mae gan y Buddiolwr gyfrifoldeb i sicrhau bod yr hawliad a gyflwynir yn rhifyddol gywir a'i fod am offer cymwys sydd ar y rhestr o eitemau cymeradwy yn unig.

2.3.2 Rhaid i bob eitem a gymeradwywyd fod wedi'i phrynu ar ôl y dyddiad cymeradwyo.

2.3.3 Rhaid i'r holl eitemau o offer a gymeradwywyd fod wedi eu prynu **ar ôl i'r contract gael ei dderbyn**.

Bydd hawliad y Buddiolwr yn anghywir:

- os yw'n prynu eitemau nad ydynt yn cydymffurfio â'r manylebau cywir; neu
- os yw wedi prynu eitemau cyn i'r contract gael ei dderbyn; neu
- os nad yw wedi prynu'r holl eitemau yn y contract; neu

- os nad yw'r eitemau ar ei ddaliad ar yr adeg mae'n cyflwyno'r hawliad; neu
- os nad yw'r holl eitemau rydych yn hawlio arnyn nhw yn bresennol ar eich dalliad mewn archwiliad.

Rhaid i'r Buddiolwr hawlio am yr holl eitemau cynradd a restrir yn ei contract.

2.4 Troseddau

2.4.1 Mae Rheoliad 13 o Reoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) 2014 (Rhif 3222 (Cy.327)) yn pennu troseddau a chosbau mewn perthynas ag elfennau penodol o gyllid datblygu gwledig. Mae'r Rheoliad hwnnw a'r troseddau hynny yn berthnasol i'r Cynllun Grant Busnes i Ffermydd. Mae troseddau'n cynnwys darparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol, yn fwriadol neu'n fyrbwyll, mewn perthynas â chyllid datblygu gwledig; rhwystro arolygydd neu swyddog; a gwrthod darparu gwybodaeth ar gais.

3. Diwygiadau i'r Contract

3.1 Newidiadau i Delerau ac Amodau'r Contract

3.1.1 Mae'n bosibl y bydd angen i Weinidogion Cymru wneud newidiadau i'r Contract hwn i ystyried y cyngor gwyddonol diweddaraf, addasu rheolau'r cynllun i ystyried unrhyw newid i **Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014–2020**, neu adolygu cyfraddau talu, ymysg pethau eraill.

3.1.2 Bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi'r newidiadau yn Gwlad Ar-lein, ar wefan Llywodraeth Cymru yn <https://llyw.cymru/>, a lle bo angen, cysylltu â buddiolwyr drwy gyfrifon ar-lein RPW Ar-lein.

3.1.3 Mae'n ofynnol i'r Buddiolwr gydymffurfio ag unrhyw newidiadau a wneir i'r Contract hwn os gwneir unrhyw amrywiad neu addasiad statudol i'r Rheoliadau, ac yn dilyn hysbysiad gan Weinidogion Cymru.

3.2 Terfynu

3.2.1 Terfynu gan Weinidogion Cymru

3.2.1.1 Gall Gweinidogion Cymru derfynu'r Contract hwn o dan yr amgylchiadau canlynol:

- i) lle mae Gweinidogion Cymru yn arfer eu pwerau yn unol â Chymalau 3.1, 6.4 a 6.7 a;
- ii) drwy ddefnyddio disgresiwn absoliwt **Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014–2020** neu unrhyw Raglen Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru yn y dyfodol;
- iii) ar ddiwedd rhaglen bresennol **Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014–2020** neu unrhyw Raglen Cymunedau Gwledig yn y dyfodol;
- iv) lle bo newidiadau i **Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020** neu unrhyw Raglen Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru yn y dyfodol;
- v) lle mae newidiadau i ddarpariaethau cyllidebol Gweinidogion Cymru yn gwneud newidiadau i weithrediad Cynllun y Grant Busnes i Ffermydd yn angenrheidiol;

3.2.1.2 Lle mae Gweinidogion Cymru'n derfynu'r Contract yn unol â chymal 4.2.1.1 (ii), fe all fod yn ofynnol, yn unol â'r Rheoliadau, i Weinidogion Cymru wahardd y Buddiolwr rhag ymgymryd â menter neu gytundeb newydd o dan gynllun sy'n seiliedig ar ardal Datblygu Gwledig am gyfnod o ddim mwy na dwy flynedd i ddyddiad derfynu'r Contract.

3.2.2 Terfynu gan y Buddiolwr.

3.2.2.1 Os yw'r buddiolwr yn derfynu'r Contract hwn cyn i dymor yr ymrwymiad ddod i ben, yn amodol ar ddarpariaethau Cymal 4.4 (Trosglwyddo neu Werthu Tir dan Gontract), gall Gweinidogion Cymru, yn unol â'r Rheoliadau, gymryd camau i adennill taliadau a wnaed i'r Buddiolwr dan y Contract â llog.

4. Archwiliadau a Chadw Cofnodion

4.1 Bydd Gweinidogion Cymru neu eu hasiantiaid yn cynnal archwiliadau a allai fod yn ddirybudd neu o fewn cyfnod cyfyngedig iawn o rybudd.

4.2 Rhaid i'r Buddiolwr:

i) caniatáu i swyddogion Gweinidogion Cymru, sydd â'r awdurdod priodol, neu Unigolyn Awdurdodedig, wirio'r holl fanylion y ei ddatganiad o ddiddordeb neu ei gontract; y manylion yn ei hawliad a'r datganiadau a wnaed pan gyflwynodd ei ddatganiad o ddiddordeb a'i hawliad. Bydd hyn yn cynnwys gwirio trosiant y busnes, gwirio bod yr holl eitemau ar y daliad ar adeg yr archwiliad, dyddiadau prynu'r offer, at bwy mae'r anfoneb (neu anfonebau) wedi'i chyfeirio a manylebau'r offer (lle bo hynny'n briodol), at ddibenion cadarnhau a yw telerau'r contract hwn wedi cael eu llawn fodloni;

ii) rhoi pob cymorth rhesymol i Unigolyn Awdurdodedig mewn perthynas â'r Contract. Os bydd Unigolyn Awdurdodedig yn ystyried bod angen, rhaid i'r Buddiolwr fynd gyda'r unigolyn awdurdodedig.

4.3 Rhaid i'r Buddiolwr sicrhau bod unrhyw wybodaeth, llyfrau cofnodion, cyfrifon, derbynebau neu ddata arall ar gael i Weinidogion Cymru, gan gynnwys mynediad at ddata cyfrifiadurol ei bod yn rhesymol i'r yr unigolyn awdurdodedig ofyn amdano at ddibenion gwirio a gydymffurfir â thelerau'r contract.

4.4 Rhaid i'r Buddiolwr ddarparu'r wybodaeth honno o fewn y cyfnod a bennir gan Weinidogion Cymru a rhaid iddo ganiatáu i'r unigolyn awdurdodedig fynd â chopïau neu ddyfyniadau o unrhyw rai o'r dogfennau neu'r cofnodion hynny.

4.5 Rhaid i'r Buddiolwr gadw'r holl anfonebau, cyfrifon neu ddogfennau eraill sy'n ymwneud ag ymrwymadau ar ôl taliad olaf y cynllun, gan gynnwys copïau o ddogfennau gwreiddiol am o leiaf saith mlynedd.

4.6 Rhaid i'r Buddiolwr gydsynio i Weinidogion Cymru gysylltu ag awdurdodau perthnasol eraill i ofyn am wybodaeth yn unol ag unrhyw ymholiadau y gall Gweinidogion Cymru fod am eu gwneud i wirio gwybodaeth a roddwyd gan y Buddiolwr.

- 4.7 Rhaid i'r Buddiolwr, ar gais, roi manylion unrhyw daliadau a dderbyniwyd neu sy'n ddyledus gan unrhyw gorff llywodraethol neu gorff cyhoeddus, neu bolisi yswiriant, mewn perthynas â'r eitemau cyfalaf i Weinidogion Cymru.
- 4.8 Rhaid i'r Buddiolwr hysbysu Gweinidogion Cymru ar unwaith os bydd yn derbyn unrhyw gynnig o gyllid neu gytundeb mewn perthynas â rheoli unrhyw ran o'r eitemau cyfalaf gan unrhyw unigolyn neu gorff ar wahân i Weinidogion Cymru.
- 4.9 Rhaid i'r Buddiolwr ganiatáu i swyddogion Gweinidogion Cymru, Unigolyn Awdurdodedig neu gontractwr trydydd parti gael mynediad at yr eitemau cyfalaf at ddibenion monitro a gwerthuso canlyniadau'r cynllun ar unrhyw adeg yn ystod tymor y Contract.
- 4.10 Mae'r Buddiolwr a Gweinidogion Cymru yn cytuno y bydd unrhyw ymddygiad fel gwrthod caniatáu archwiliad, methu cydweithredu â chais i gynnal archwiliad, rhwystro Unigolyn Awdurdodedig neu fethu rhoi cymorth rhesymol yn cael ei ystyried yn achos o dorri'r Contract yn unol â Chymal 6, ac yn arwain at ostwng, canslo neu adennill taliad a wnaed o dan y Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio lardiau a chynlluniau eraill o dan y Polisi Amaethyddol Cyffredin.

5. Cosbau a Thramgwyddau

- 5.1 Gall Gweinidogion Cymru osod cosbau, a allai arwain at wrthod talu, naill ai'n rhannol neu'n llawn, am y rhesymau canlynol:
- i) torri'r Contract (gan gynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) Rheolau'r Cynllun a nodir yn Adran 2 ac Archwiliadau a Chadw Cofnodion a nodir yng Nghymal 5);
 - ii) anghysondebau a thoriadau mewn perthynas â hawliad am y Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio lardiau

5.2 Torri Amodau'r Cynllun

- 5.2.1 Gall Gweinidogion Cymru ganfod gwariant anghymwys drwy archwiliadau gweinyddol, delweddu lloeren neu archwiliadau fferm a byddant yn hysbysu'r Buddiolwr yn ysgrifenedig.

5.2.2 Bydd Gweinidogion Cymru'n hysbysu'r Buddiolwr yn ystod y cam talu am fanylion unrhyw ostyngiad neu waharddiad a weithredir.

5.2.3 Bydd Gweinidogion Cymru yn gwrthod y cyllid a hawlir, neu'n tynnu'r cyllid yn ôl – yn llawn neu'n rhannol, os nad yw'r meini prawf cymhwysedd yn cael eu bodloni.

5.2.4 Bydd Gweinidogion Cymru'n gwrthod y cyllid a hawlir, neu'n tynnu'r cyllid yn ôl – yn llawn neu'n rhannol, os nad yw'r Buddiolwr yn cydymffurfio â'r ymrwymadau sydd wedi eu cynnwys yn y Contract hwn.

5.2.5 Bydd Gweinidogion Cymru'n gwrthod y cyllid a hawlir, neu'n tynnu'r cyllid yn ôl yn llawn, lle y canfyddir bod y Buddiolwr wedi rhoi tystiolaeth ffug er mwyn derbyn y cyllid, neu heb ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol oherwydd esgeulustod.

5.2.6 Os bydd y Buddiolwr yn gwneud datganiad ffug neu fethu hysbysu Gweinidogion Cymru am newid perthnasol, gall fod ar agor i gael ei erlyn.

5.3 Adennill Taliadau

5.3.1 Mae'n ofynnol mewn rhai amgylchiadau i Weinidogion Cymru adennill taliadau'n llawn neu'n rhannol, a gallant arfer y pwerau hyn yn unol â Rheoliad 10 o Reoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) 2014 OS Rhif 3222 (W. 327) fel y'i diwygiwyd.

5.4 Ychwanegu Llog

5.4.1 Os oes angen i Weinidogion Cymru adennill unrhyw swm a dalwyd, rhaid i'r Buddiolwr ad-dalu'r cyfanswm dan sylw – â llog lle bo hynny'n berthnasol

5.4.2 Bydd Gweinidogion Cymru'n cyfrifo llog ar gyfer y cyfnod rhwng y dyddiad cau a roddwyd i'r Buddiolwr ar gyfer talu, a nodir yn y gorchymyn adennill, a dyddiad naill ai'r ad-daliad neu'r didyniad. Fi fydd y cyfnod hwn yn hwy na 60 diwrnod.

5.4.3 Bydd Gweinidogion Cymru yn cyfrifo'r gyfradd llog i'w defnyddio yn unol â graddfa LIBOR ar y diwrnod hwnnw, gydag ychwanegiad o 1%.

6. Y Weithdrefn Apelio

6.1 Os bydd y Buddiolwr yn dymuno herio penderfyniad gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â'i Contract ar gyfer y Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio lardiau neu ei daliad, caiff wneud cais drwy lythyr o fewn 60 diwrnod i ddyddiad y llythyr a oedd yn hysbysu'r Buddiolwr am benderfyniad Gweinidogion Cymru. Mae'n bosibl cael manylion y broses apelio dau gam gan Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid Taliadau Gwledig Cymru.

6.2 Os yw Buddiolwr yn anfodlon â'r ffordd mae ei achos wedi cael ei drin, gellir cwyno o dan bolisi a gweithdrefn gwynion Llywodraeth Cymru. Gellir cael cyngor gan Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid Taliadau Gwledig Cymru.

7. Diogelu Data: Hysbysiad Preifatrwydd

7.1. Mae'r hysbysiad hwn yn hysbysu'r Buddiolwr sut bydd Gweinidogion Cymru yn defnyddio'r wybodaeth a gedwir ac a gesglir mewn perthynas â'r Contract hwn neu unrhyw ddogfen arall sy'n cael ei defnyddio, ei chreu neu ei chasglu mewn perthynas â'r Contract hwn.

Mae'n esbonio hefyd sut y bydd Llywodraeth Cymru yn prosesu ac yn defnyddio eich data personol a'ch hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

Y rheolydd data ar gyfer y wybodaeth a gyflwynir fel rhan o'r Contract hwn yw **Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.**

Y swyddog diogelu data ar gyfer yr un wybodaeth yw'r Swyddog Diogelu Data, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ. **E-bost:**

DataProtectionOfficer@llyw.cymru

7.2 Bydd y wybodaeth yn cael ei phrosesu a'i rheoli gan Weinidogion Cymru yn unol â'u hymrwymadau a'u dyletswyddau dan y rheoliadau Ewropeaidd canlynol:

- Rheoliad y Cyngor (UE) Rhif 1306/2013
- Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 640/2014
- Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 809/2014
- Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 907/2014

- Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 908/2014
- Rheoliad y Cyngor (UE) Rhif 1305/2013
- Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 807/2014
- Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 808/2014
- Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (UE) Rhif 679/2016

7.3 Bydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio'n bennaf er mwyn cadarnhau bod y Buddiolwr yn cydymffurfio â'r Contract ac i brosesu ceisiadau am daliad. Ond, caiff Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r wybodaeth hefyd at bwrpasau eraill, gan gynnwys y rheini sy'n gysylltiedig â'i swyddogaethau a'i dyletswyddau o dan Bolisi Amaethyddol Cyffredin y Gymuned Ewropeaidd a'i hymrwymiaau amgylcheddol statudol.

7.4 Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu'r wybodaeth yw bod angen gwneud hynny er mwyn cyflawni tasg wrth arfer yr awdurdod swyddogol a roddwyd i Lywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn casglu data personol i adnabod lleoliad y Buddiolwr a'i fusnes(au) ffermio. Nid yw Llywodraeth Cymru yn casglu unrhyw ddata mewn categori arbennig.

Prosesir y data drwy broses wedi'i hawtomeiddio o reolau busnes sy'n defnyddio Cyfeirnod y Cwsmer (CRN) fel prif allwedd i fwyafrif yr adroddiadau.

Bydd gwybodaeth y Buddiolwr yn cael ei chadw yn unol â Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 908/2014, "Cadw Gwybodaeth Gyfrifyddu".

Rhesymau dros rannu data personol

Gellir defnyddio'r wybodaeth hefyd at y dibenion canlynol:

- llunio adroddiadau o ddata cyfunol a/neu grynodedbau ystadegol i'w cyhoeddi
- llywio penderfyniadau mewn perthynas â newidiadau i bolisiau a chyllid, gan gynnwys astudiaethau ymchwil a gynhelir ar ran Llywodraeth Cymru i lywio'r gwaith o Fonitro a Gwerthuso Cynlluniau Datblygu Gwledig
- adnabod perchnogion/defnyddwyr tir os oes argyfwng, e.e. rheoli clefydau a rheoli tramgwyddau
- Gallai'r wybodaeth rydym wedi'i chasglu oddi wrthydd chi gael ei rhannu ag asiantaethau atal twyll a fydd yn ei defnyddio i atal twyll ac atal gwyngalchu arian ac i gadarnhau pwy ydych chi
- datgelu gwybodaeth i awdurdodau rheoleiddio, fel Tollau a Chyllid Ei Mawrhydi a'r Heddlu
- cyhoeddi gwybodaeth benodol ac ymateb i geisiadau am wybodaeth.

Cyhoeddi a Datgelu Gwybodaeth

Bydd y wybodaeth yn cael ei rheoli a'i defnyddio gan Lywodraeth Cymru yn unol â'i hymrwymiaau a'i dyletswyddau o dan y canlynol:

- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

- Deddfwriaeth Diogelu Data
- Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004
- Rheoliad y Comisiwn (CE) Rhif 908/2014

7.5 Gall aelod o'r cyhoedd ofyn i weld gwybodaeth am y Buddiolwr, gan gynnwys gwybodaeth bersonol amdano. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru ryddhau'r wybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth bersonol am y Buddiolwr, wrth ymateb i geisiadau o'r fath.

7.6 Yn ôl Rheoliad y Comisiwn (CE) Rhif 908/2014, rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi manylion y symiau a dalwyd i fuddiolwyr y Polisi Amaethyddol Cyffredin. Cyhoeddir data ar gyfer pob buddiolwr ar wefan y gellir chwilio arni, a bydd yn cynnwys enw a lleoliad y ffermwr/rheolwr tir a manylion y symiau a'r cynlluniau sydd wedi derbyn cymhorthdal. Fodd bynnag, ni ddatgelir enwau'r rheini sy'n cael llai na'r hyn sy'n gyfwerth â €1,250 mewn cymorthdaliadau. Cyhoeddir y data bob blwyddyn ar 31 Mai a bydd y data ar gael am ddwy flynedd o'r dyddiad y cafodd ei gyhoeddi. Bydd yr wybodaeth ar gael ar wefan DEFRA yn: www.cap-payments.defra.gov.uk

Hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GPDR)

Mae'r GDPR yn rhoi hawliau i unigolion mewn perthynas â'r data personol a gedwir amdanynt: Mae'r hawliau hynny'n cynnwys:

- yr hawl i gael eu hysbysu (yr hysbysiad hwn)
- yr hawl i ofyn i Lywodraeth Cymru ddarparu copïau o'r data personol mae'n ei gadw amdanynt, er y gall Llywodraeth Cymru gadw rhywfaint o ddata yn ôl neu beidio â darparu copïau o bryd i'w gilydd
- yr hawl, o dan rai amgylchiadau, i atal data rhag gael ei brosesu gan Lywodraeth Cymru, neu gyfyngu ar y data sy'n cael ei brosesu
- yr hawl, o dan rai amgylchiadau, i sicrhau bod data anghywir yn cael ei gywiro
- yr hawl, o dan rai amgylchiadau, i sicrhau bod data yn cael ei ddileu (ei anghofio)

Os ydych am arfer unrhyw rai o'ch hawliau o dan y GDPR, cysylltwch â Llywodraeth Cymru yn y cyfeiriad a roddir ar ddechrau'r hysbysiad hwn.

Mae gan unigolion yr hawl hefyd i ofyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth, sy'n gorfodi ac yn goruchwyllo'r GDPR, i asesu a fyddai prosesu eu data personol yn debygol o gydymffurfio â'r GDPR neu beidio. Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF, Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113, Gwefan: <https://ico.org.uk/>

8. Dehongli

8.1 Rhoddwyd penawdau ar y paragraffau er mwyn ei gwneud yn gyfleus i gyfeirio atynt ac ni fyddant mewn unrhyw ffordd yn effeithio ar gystrawen ystyr neu effaith

unrhyw beth a gynhwysir yn y Contract hwn nac yn rheoli hawliau a rhwymedigaethau'r partïon.

9. Llyffetheirio Disgresiwn

9.1 Ni fydd dim yn y Contract hwn yn llyffetheirio neu'n cyfyngu Gweinidogion Cymru fel arall wrth iddynt arfer eu swyddogaethau o dan y Rheoliadau.

9.2 Mewn achos o wrthdaro rhwng telerau'r Contract a'r Rheoliadau ac i'r graddau bod unrhyw rai o gymalau'r Contract hwn yn anghydnaws neu'n anghyson â'r Rheoliadau, mae'r Partïon yn cytuno mai darpariaethau'r Rheoliadau fydd yn berthnasol.

10. Atebolrwydd Cyhoeddus ac Yswiriant Trydydd Parti

10.1 Yn ogystal ag unrhyw hawl mynediad cyfreithiol presennol sydd gan unrhyw unigolyn at Dir y Contract, lle mae'r Buddiolwr wedi cytuno fel rhan o'r Contract y gall y cyhoedd gael mynediad dros Dir y Contract, mae'r Buddiolwr hwnnw yn ymgymryd i feddu ar bolisi digonol o atebolrwydd cyhoeddus ac yswiriant trydydd parti ar gyfer holl dymor Contract y Grant Busnes i Ffermydd.